

Eich cyf / Your ref: Gofynnwr am / Please ask for: **Rhianydd Evans**
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: **01267 246426**
Dyddiad / Date: **15 Gorffennaf 2021** E-bost / E-mail: **RJonesEvans@sirgar.gov.uk**

Annwyl Ymgynghorai

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –
Bwriad i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant**

Ar 14 Gorffennaf 2021, gyda'r cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Gweithredol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gwnaed y penderfyniad i gymeradwyo'r cynnig canlynol:

Ar ddiwrnod olaf Tymor yr Haf 2021, 16 Gorffennaf 2021, bydd yr awdurdod yn rhoi'r cynnig ar waith i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant ac o'r 17 Gorffennaf 2021, bod dalgylch Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant yn cael ei gynnwys yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed.

Gwrthwynebiadau i'r cynnig

Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd nad oedd dim gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Swyddog Gweithredol y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn yr awdurdod yw bydd y cynnig hwn o leiaf yn cynnal y safonau addysg presennol, caiff hyn ei gadarnhau gan adroddiadau arolygu Estyn a gynhaliwyd yn yr ysgolion yr effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn.

Roedd yr Awdurdod Lleol wedi gweithio'n agos gyda'r Pennaeth \ a'r corff llywodraethu perthnasol i sicrhau cyfnod trosglwyddo hwylus i ysgolion eraill.

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Swyddog Gweithredol wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant. Mae'r amcanestyniadau yn nodi bod digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed ar gyfer y disgyblion presennol a'r rhai yn y dyfodol a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r lleoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed.

Adnoddau addysg

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried ac, yn benodol nifer isel y disgyblion, diffyg arweinyddiaeth barhaol a'r effaith gysylltiedig ar ddarpariaeth addysg ynghyd â'r costau uchel o gynnal yr ysgol.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae ail rifyn Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig o ran sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn eu cau. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant wedi cael ei dynodi yn ysgol wledig sy'n golygu eu bod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn cyfres fwy manwl o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Nifer sylweddol o leoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant.
- Yr effeithiau cysylltiedig ar ddarpariaeth addysg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant oherwydd nifer isel y disgyblion.
- Diffyg arweinyddiaeth gynaliadwy heb bennaeth parhaol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant.
- Mae digon o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed i dderbyn pob disgybl o Ysgol Gynradd Gymunedol Abernant.
- Effaith gadarnhaol ar leihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed.
- Lleihad yn y gost fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cynwyl Elfed os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu.
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,

Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Direction of Education & Children's Services,

County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Rhianydd Evans o'r adran hon.

Yn gywir



Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



**BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English